Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg/College Road
Caerfyrddin/Carmarthen
SA31 3EQ

Cadeirydd/Chairman:
Andrew Green
Prif Weithredwr/Chief Executive:
Dr Ioan Matthews

Ffôn/Phone:
01267 610400
Ebost/Email:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

CYLCHLYTHYR

Targedau Cyfrwng Cymraeg 2015/16

Dyddiad: 19 Medi 2014

Cyfeirnod: 14/01

At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru; Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol; Penaethiaid sefydliadau addysg bellach yng Nghymru; a'r Swyddogion Cangen.

Ymateb Erbyn: 10 Hydref 2014

Cyswllt: Dafydd Trystan
d.trystan@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyron/

Cefndir

1. Mae strategaeth gorfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), sydd wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys targedau o ran nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn sefydliadau addysg uwch Cymru erbyn 2015/16.[1] Mae'r rhain yn dargedau ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru.

2. Ar gyfer 2015/16, gosodwyd targed o 5,600 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, a 3,030 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Mae'r Cyngor Cyllido yn defnyddio'r targedau hyn fel rhan o'r broses Cynllunio Ffioedd blynyddol, ac yn monitro cynnydd o flwyddyn i flwyddyn.

4. Mae'r Cyngor Cyllido yn ddiweddar wedi dosbarthu data ar gyfer y flwyddyn 2012/13 ar gyfer pob sefydliad. Mae'r data yn nodi nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r nifer o gredydau maent yn astudio, a hynny fesul pwnc, lefel (israddedig/ôl-raddedig) a modd astudio (llawn amser/rhan amser). Mae'r data hefyd yn nodi statws ieithyddol y myfyrwyr fesul pwnc gan rannu'r myfyrwyr i dri grŵp – siarad Cymraeg yn rhugl, siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl, ddim yn siarad Cymraeg.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r targedau cyfrwng Cymraeg

5. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymrwymedig i gefnogi'r prifysgolion er mwyn sicrhau bod y targedau a osodwyd yn cael eu cyrraedd erbyn 2015/16.

---

1. [1] Nodir y targedau hyn fel rhan o Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor Cyllido: http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/corporate_documents/Corporate%20Strategy%202013-14-2015-16(w).pdf

6. Pwrpas y cylchlythyr hwn yw casglu gwybodaeth ac ymatebion gan brifysgolion i asesu cynnydd yn erbyn y targed hyd yma. Fel rhan o'r broses o weithio tuag at gyrraedd y targedau, mae'r cylchlythyr yn gofyn am ddadansoddiad o'r sefyllfa fesul pwnc o fewn sefydliadau yn y flwyddyn ddata ddiweddaraf, sef 2012/13. Mae'r cylchlythyr hefyd yn gofyn am ymateb y sefydliadau i fodel drafft sy'n amlinellu sut y gellir cyrraedd y targedau erbyn 2015/16.

2012/13

7. Nodir yn y tabl isod y dosraniad fesul prifysgol parthed y nifer sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r golofn gyntaf yn nodi nifer y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn y flwyddyn 2012/13. Mae'r ail golofn yn nodi'r nifer a astudiodd o leiaf 40 credyd, sef o leiaf traean o gwrs israddedig arferol:

Tabl 1: Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 2012/13

Sefydliad	**O leiaf 5 credyd**	**O leiaf 40 credyd**
De Cymru	251	124
Aberystwyth	517	358
Bangor	1,244	718
Caerdydd	215	166
Cymru, y Drindod Dewi Sant	2,019	717
Abertawe	222	86
Metropolitan Caerdydd	195	179
Glyndŵr	148	1
Agored	52	0
Cyfanswm	**4,863**	**2,342**

8. Mae'r Coleg yn barnu y gwelwyd cynnydd addas ar draws Cymru yn ystod 2012/13, ond mae'r patrwm cynnydd yn anwastad ar draws sefydliadau ynghyd â mewn rhai achosion o fewn sefydliadau a gwahanol bynciau. Mae'r data a ddarparwyd i'r sefydliadau gan y Cyngor Cyllido yn nodi'r sefyllfa'n fanwl fesul pwnc, ac felly'n cynnig sail dadansoddol gref i'r sefydliadau fedru ystyried y cynnydd a wnaed.

9. Gofynnir felly i bob sefydliad baratoi sylwebaeth fer ar eu cynnydd yn ystod 2012/13, gan gyflwyno sylwadau ar bob maes lle ceir darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gwahoddir sefydliadau i ystyried buddsoddiad y **Coleg** a'r **Brifysgol** yn y meysydd hynny a dadansoddi a yw'r cynnydd ym mhob maes

- yn cwrdd â'r disgwyl
- yn uwch na'r disgwyl
- yn is na'r disgwyl.

Yn y meysydd hynny lle bu'r cynnydd o ran niferoedd yn is na'r disgwyl, gwahoddir sefydliadau i gyflwyno sylwadau am y modd y bwriadant fynd ati i wella'r sefyllfa.

10. Os dymuna'r sefydliadau dderbyn cyngor neu arweiniad pellach parthed y sylwebaeth hon, dylid cysylltu â Chofrestrydd y Coleg, Dr Dafydd Trystan: d.trystan@colegcymraeg.ac.uk

Targedau 2015/16

11. Mae'r Coleg wedi dadansoddi'r cynnydd a wnaed hyd at 2012/13, a'r targed a osodwyd i sefydliadau addysg uwch Cymru erbyn 2015/16. Er mwyn gwneud y dadansoddiad hwn, mae'r Coleg wedi ystyried buddsoddiad y Coleg Cymraeg mewn gwahanol feysydd ynghyd â niferoedd y siaradwyr Cymraeg sydd eisoes yn astudio mewn sefydliadau yng Nghymru.

12. Ar sail y dadansoddiad hwn, cynigir y model canlynol ar gyfer cyrraedd y targedau erbyn 2015/16:

Tabl 2: Targedau 2015/16

Sefydliad	**O leiaf 5 credyd**	**O leiaf 40 credyd**
De Cymru	334	165
Aberystwyth	626	476
Bangor	1,400	956
Caerdydd	327	242
Cymru, y Drindod Dewi Sant	2,025	725
Abertawe	295	149
Metropolitan Caerdydd	260	238
Glyndŵr	148	20
Agored	125	10
Addysg Uwch mewn Addysg Bellach	60	49
Cyfanswm	**5,600**	**3,030**

13. Gofynnir i brifysgolion ystyried yn ofalus y targedau a gynigir yma. Mae'r Coleg yn ystyried bod y targedau a nodir uchod yn rhesymol ac yn gymesur gyda'r buddsoddiad sy'n deillio o'r Coleg yn y sefydliadau. Wrth osod y targedau a nodir yma at ei gilydd, maent yn cwrdd â'r targedau (5,600 a 3,030) a bennwyd gan y Cyngor Cyllido a'r Llywodraeth.

14. Gwahoddir sefydliadau yn unigol i nodi a ydynt yn ystyried bod eu targedau'n addas, yn rhy uchelgeisiol, neu heb fod yn ddigon uchelgeisiol. Os awgryma sefydliad unigol y dylid newid y targed, dylid cynnig esboniad cyflawn dros newid o'r fath. Bydd angen i'r Coleg ystyried yn ofalus pob ymateb a ddaw oddi wrth y sefydliadau er mwyn sicrhau bod cynllun yn ei le er mwyn cyrraedd y targedau'n gyflawn, ac y defnyddir buddsoddiad y Coleg yn y modd mwyaf strategol posibl er mwyn sicrhau cynnydd.

Ymateb

15. Gwahoddir y sefydliadau i ymateb erbyn 10 Hydref, 2014, gan anfon eu sylwadau at Dr Dafydd Trystan: d.trystan@colegcymraeg.ac.uk. Bydd y Coleg yn ystyried yr adroddiad a gyflwynir yn fanwl, ac yn paratoi dadansoddiad cyfansawdd o'r ymatebion i Fwrdd Academaidd y Coleg, i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg ac i'r Cyngor Cyllido. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu paratoi ar lefel genedlaethol, a thrafodir unrhyw faterion sy'n ymwneud â phynciau/ysgolion unigol yn uniongyrchol gyda'r brifysgol dan sylw.